

Croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol

Wrth ddechrau ar ein taith o'r Maes yn y Bae, i'r Als i ganol y ddinas, heibio i gapel Pembroke Terrace ac allan i'r maestrefi cawsom ein tywys i edrych ar weledigaeth a hyder rhai o sefydlwyr y gwahanol gapeli yng Nghaerdydd. (Diau y bydd gan yr enwadau eraill hanesion cyffelyb hefyd!) Yn awr mae Glyn Williams yn ein tywys yn ôl ar hyd llwybrau'r ddinas i sylwi ar yr hanesion sydd o dan yr wyneb.



**Eisteddfod
Genedlaethol
Caerdydd**
3-11 Awst 2018

Loetran ger y Crwys

Loetran am ychydig mwy yn ardal y Rhath a Cathays a wnawn yn awr oherwydd penderfynwyd adeiladu capel newydd heb fod ymhell iawn o gapel Horeb. Top Heol y Crwys oedd y fan a ddewiswyd. Safle delfrydol ydoedd, yn nhyb y swyddogion, gan ei fod yng nghanol y dalgylch.



Hen gapel Crwys sy'n Fosg erbyn heddiw

Pan agorwyd y capel newydd yn 1900 cymysg oedd barn y sylwebyddion am yr adeilad. Canmolwyd ef yn y Goleuad a'r Western Mail ond disgrifiad y pensaer John Hilling ohono oedd, 'A grotesque but nevertheless loveable building with art

Nouveau undertones... and stands like a toy castle in front of a railway terminal.' Roedd yr aelodau, ar y llaw arall, yn llawn cyffro ac yn awyddus iawn i fynd yno.

Ar achlysur agor y capel tystiodd un ohonynt yn ei dyddiadur ei bod 'yn mynd i gael dress newydd ac fe anfonodd mam het i mi – chwarae teg iddi!'

Credai'r Archdderwydd Dyfed, ar y llaw arall, y byddai'r capel newydd yn amddiffyn Cymreictod ei haelodau gan fod Caerdydd, yn ei farn ef, 'yn lle yr oedd llawer o Gymry yn cael eu claddu'n fyw!'

Tyfu eto

Er hynny tyfu'n gyflym a wnaeth yr eglwys ac ystryd hi yn eglwys gartrefol a chynnes iawn. Un rheswm am hynny oedd bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn adnabod ei gilydd a'u bod yn byw o fewn pellter cerdded i'r capel. Ar y cyfan perthyn i'r dosbarth gweithiol yr oeddynt, ac yn eu

plith roedd mân grefftwy a masnachwyr ynghyd â nifer o weithwyr cyffredin a morynion tai.

Erbyn 1907 gallai'r hybarch John Morgan Jones, gweinidog Pembroke Terrace, ymfalchio o flaen y Comisiwn Brenhinol gan ddweud 'There is a fairly strong church at Crwys Road, it has nearly 250 members.'

Dafydd Morgannwg

Un ohonynt oedd y cymeriad lliwgar ac amryddawn Dafydd Morgannwg a aned ym Merthyr Tudful. Arolygydd busnes glo ydoedd wrth ei alwedigaeth ond roedd cylch ei ddiddordebau yn eang. Yn ogystal â bod yn athro Ysgol Sul cydwbybodol roedd o hefyd yn fardd, hanesydd, daearegwr ac eisteddfodwr brwd. Cyhoeddodd ddwy gyfrol bur nodedig sef *Yr Ysgol Farddol* yn 1869 a *Hanes Morgannwg* yn 1874.

(parhad ar dudalen 2)

Ffrwyth Corwynt Cariad – £203,000 ar gyfer gwaith Cymorth Cristnogol yn y Philipinas




Mewn seremoni fer yn ystod Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Wrecsam, cyflwynodd Dwyrdd Williams, blaenor o Ddolgellau, sic e £203,000 i Gymorth Cristnogol i Mari McNeill, Dirprwy Bennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Ffrwyth blwyddyn Apêl Corwynt Cariad oedd haelioni Eglwys Bresbyteraidd Cymru tuag at waith Cymorth Cristnogol yn y Philipinas.

Hefyd yn bresennol trwy Skype yr oedd rheolwr Cymorth Cristnogol yn y Philipinas, Maria Alexandra Pura. Cyflwynwyd hi gan y Parchedig Anna Jane Evans, Cydlynnydd Rhanbarthol Cymorth Cristnogol yng Ngogledd Cymru. Mynegodd Alexandra ei diolchgarwch i'r rhai oedd wedi ymgynnull: 'Diolch yn fawr iawn i chi, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, am y gefnogaeth hoffwn i chi wybod yr aiff yn bell iawn.'

Peryglon newid hinsawdd

Eglurodd Alexandra pa mor bwysig oedd



Cheryl Williams, Parch Anna Jane Evans, Mari McNeill, Dwyrdd Williams, Parch Catrin Roberts.

gwaith Cymorth Cristnogol yn ei gwlad: 'Gwelwn beryglon uniongyrchol i fywyd, diogelwch ac urddas rhai o'r merched, dynion a phlant mwyaf bregus gan risgiau

newid hinsawdd a thrychinebau yn ogystal â thrais gan y wladwriaeth.

(parhad ar dudalen 8)

Croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol (parhad)

Bri yn y gymdeithas

Un ymysg llawer oedd Dafydd Morgannwg oherwydd bu cynnydd sylweddol yn aelodaeth a gweithgareddau'r capel yn ystod yr ugeinfed ganrif. Roedd bri mawr ar weithgareddau'r ysgol Sul, Caniadaeth y Cysegr a phob math o gymdeithasau adloniadol ac erbyn wythdegau'r ganrif roedd tua phum cant o aelodau yn perthyn i'r capel. Erbyn hyn roedd gan y capel gylchgrawn misol o'r enw *Y Gadwyn* (sy'n parhau i gael ei gyhoeddi) er mwyn lledaenu newyddion ymysg yr aelodaeth a meithrin trafodaeth rhyngddynt.

Fel y tyfai aelodaeth y Crwys edwino a wnâi capel Pembroke Terrace. Penderfynwyd dirwyn yr achos yno i ben ac ymuno ag eglwys y Crwys. Ar y Sul cyntaf o Ionawr 1976, pan oedd y Parch Cynwil Williams yn traddodi ei bregeth gyntaf yn y Crwys, fe arweiniwyd aelodau Pembroke

Terrace i mewn i'r capel gan eu pen blaenor R T Davies. Bellach tro'r ferch oedd hi i roi cysgod a nododd i'r fam a fu unwaith mor hael a charedig wrthi hi!



Capel Newydd y Crwys

Ar daith eto

Rydym yn awr wedi cyrraedd Richmond Road, cartref un o'r ddau gapel sy'n perthyn i Eglwys Bresbyteraidd Cymraeg yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Ystyrir hi yn eglwys fywiog a chroesawgar o dan arweiniad ei gweinidog y Parch Aled Huw Thomas

Yn 1988, oherwydd problemau gyda'r adeiladau yn Heol y Crwys, bu raid i'r ddiadell godi eu pac a symud i Richmond Road. Yno fe brynwyd adeilad modern y *Gwyddonwyr Cristnogol* ac aed ati yn ddiymdroi i'w addasu yn gysegr addas ar gyfer diwedd yr ugeinfed ganrif. Erbyn hyn mae'r Crwys yn gapel modern a thrawiadol o'r tu allan ac yn heddychlon a chynnes oddi fewn. Mae'r cyntedd eang yn groesawus ac mae'r capel ei hun yn cynnwys dwy ffenestr liw arbennig iawn a wnaed gan Gareth Morgan o Lanelli. Mae'r naill wedi'i chyflwyno i William Williams, Pantycelyn a'r llall i Ann Griffiths, Dolwar Fach. Yng nghefn y capel ceir theatr fodern a gwneir defnydd helaeth ohoni i gyflwyno sioeau a dramâu i'r aelodau ac i'r cyhoedd.

Ymlaen mae Treganna

Rhaid teithio yn awr ar draws y ddinas i gyfeiriad Treganna i ymweld â'r eglwys Bresbyteraidd arall Gymraeg ei hiaith sy'n bodoli yng Nghaerdydd. Yma mewn ardal gosmopolitan o'r ddinas y saif capel Salem, ardal sy rywsut yn gweddu i

gymeriadau lliwgar fel Clara Novello a'i mab Ivor y soniais amdanynt eisoes. Caiff Salem eto ei hystyried yn eglwys fywiog a chynnes o dan arweiniad ei bugail y Parch Evan Morgan.



Capel Salem

Plannu a thyfu

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yr ardal i'r gorllewin o Gaerdydd wedi tyfu'n sylweddol. Buan y sylweddolodd yr aelodau hynny o Seion a arferai deithio deirgwaith y Sul dros y bont i'r fam eglwys i addoli, mai da o beth fyddai codi capel arall i'r nifer cynyddol o addolwyr a drigai ym maestref newydd Canton. Digon cyndyn oedd y saint yn Seion i roi caniatâd i gangen newydd gael ei sefydlu ond pan gafwyd y caniatâd fe aed ati ar unwaith i chwilio am dir i adeiladu arno. Prynwyd darn o dir yn Edward Street (Albert Street erbyn heddiw) ac ym mis Rhagfyr yn 1856 fe agorwyd y capel.

Cyfathrebu

O dan arweiniad y Parch William Evans, Tonyrefail ac, yn ddiweddarach, y Parch Edward Matthews o Ewenni, fe dyfodd y capel. Gadawodd Edward Matthews ei gartref yn Ewenni yn 1864 ar ôl iddo ffræo â chlerigwyr y Fro a daeth i fyw i Dreganna. Cyfrannodd yn helaeth i'r eglwys fechan gan ei fod yn ŵr cydnerth, yn drefnydd da ac yn bregethwr nerthol. Yn ôl R Tudur Jones roedd Matthews yn 'llawn ystumiau histrionig a oedd yn tramgwyllo'r gwŷr syber, yn rhwygo Beiblau wrth bregethu, yn plygu wysg ei gefn dros astell y pulpud neu yn tynnu cynffon ei gôt fel cwcwll dros ei ben! Ar y llaw arall nid oedd neb a allai drosglwyddo'r mor effeithiol i gynulleidfa werinol rym teimladol gras achubol Crist.' Yn ŵr egniol a phenderfynol roedd Matthews yn godwr arian heb ei ail ac iddo ef yr oedd y diolch am gasglu arian i adeiladu oriel newydd yn y capel a festri newydd ar gyfer yr Ysgol Sul.

Croeso yn talu ar ei ganfed

Ymysg y blaenoriaid a godwyd yn 1862 yr oedd William Richards a wasanaethodd fel ysgrifennydd i'r capel am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Ar ei aelwyd yn Leckwith Road rhoddodd gartref a nododd i fachgen o'r enw Henry Ratcliffe. Maes o law fe dyfodd Ratcliffe yn un o berchnogion llongau mwyaf llwyddiannus y ddinas ac, fel y cawn weld, bu'n hael iawn ei gyfraniadau i Salem.

Fel y tyfai poblogaeth y faestref felly hefyd y tyfai aelodaeth y capel ac roedd yn anrhydedd mawr i'r eglwys ifanc yn 1885 gael croesawu Sasiwn y De i Salem.

Uchafbwynt y dathliadau yn y sasiwn hwnnw oedd clywed yr enwog Barchedig John Williams, Brynsiencyn yn pregethu am y tro cyntaf yn y De. Ei destun... 'ac yr oedd hi yn nos'!!

Adeiladu eto

Doedd hi ddim yn nos ar y capel oherwydd, erbyn troad yr ugeinfed ganrif, roedd adeiladau Salem yn llawer rhy fychan i ateb y gofynion a phenderfynwyd adeiladu capel newydd, sef y capel presennol yn Market Road. Y bwriad o'r dechrau oedd codi capel hardd a phrydferth a phenodwyd pensaer disglair a phrofiadol i'w gynllunio. Fel canlyniad roedd pris uchel i'w dalu ac roedd pethau'n edrych yn ddigon du cyn i Henry Ratcliffe gamu i'r adwy. Yn ogystal â chwyddo'r gronfa adeiladu gyda'i gyfraniadau ariannol roedd Ratcliffe yn awyddus i wella ar y cynlluniau gwreiddiol. Gwnaeth hynny a thalodd amdanynt o'i boced ei hun! Fel canlyniad cafwyd ffenestri lliw yn lle rhai plaen, grisiau cerrig i'r oriel yn lle rhai coed a phulpud sêd fawr o dderw yn lle pîn. Ysgogodd hyn i Ddyfed (a oedd yn bur ffraeth ei dafod) ofyn yn ddirmygus, 'A oedd y diaconiaid o dderw hefyd?'

Nid oedd ball ar haelioni Ratcliffe ac iddo ef y mae'r diolch am fwrdd y cymun y gadair Calvin a Knox yn y pulpud a'r organ. Pan fu farw yn 1921 cyflwynodd £2000 i Salem a defnyddiwyd yr arian hwnnw i ddileu holl ddyledion y capel ar y pryd. Yn sicr fe wnaeth yr hen William Richards dro da iawn â Salem pan roddodd loches i'r bachgen bach Henry Ratcliffe!

Canlyniad hyn oll oedd adeiladu capel sy'n addurn hyd heddiw.

A heddiw?

Ond nid addurn yn unig yw Salem. Ymhlith gweithgareddau'r capel heddiw efallai mai'r un mwyaf nodedig yw gofalu am y digartref yn ystod misoedd oer y gaeaf. Unwaith yr wythnos deuant i'r festri am gynhesrwydd, pryd o fwyd, gwely i gysgu arno a brecwast iawn y bore wedyn cyn dychwelyd i gerdded palmentydd y ddinas.

Daeth ein taith ninnau i ben ar balmentydd Cowbridge Road ac mae'n hen bryd i ni ddychwelyd i'r 'maes' yn y Bae.

Gobeithio i chi gael blas ar y daith drwy'r ddinas i gael cipolwg ar ein treftadaeth Bresbyteraidd gyfoethog yma yng Nghaerdydd.

Ond yr hyn sy'n rhoi'r pleser mwyaf i mi, ac i chwithau hefyd dwi'n siŵr, yw bod eglwysy Presbyteraidd Gymraeg yn parhau i ledaenu'r efengyl mewn gair a gweithred yn ein prifddinas.

(Hoffwn gydnabod fy nioch a'm dyled i'r Athro John Gwynfor Jones, y diweddar Richard Hall Williams a D Haydn Thomas am eu llafur yn y maes. Oni bai amdanynt nhw fe fyddwn innau, fel John Williams Brynsiencyn ers talwm 'yn y nos'!)